YSGOL BRYNREFAIL
Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD

Pennaeth/Headteacher:
Mr. Eifion Jones, BSc.
☎ (01286) 672381
(01286) 672066
swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk
www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

6.3.13

Annwyl Riant / Warcheidwad

WYTHNOS SGILIAU BLWYDDYN 7

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i egluro trefniadau'r wythnos sgiliau sy'n digwydd yn yr ysgol yn ystod yr wythnos Ebrill 9fed i'r 12fed. Mae dosbarthiadau 7S, a 7E yn rhan o'r gweithgareddau ar ddydd Mawrth a dydd Mercher, Ebrill 9fed a'r 10fed a 7O a 7N yn gwneud yr un gweithgareddau ar ddydd Iau a dydd Gwener, Ebrill 11eg a'r 12fed.

Bydd eich plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu sgiliau meddwl a gweithio'n annibynnol. Byddant yn gwneud hyn trwy weithio ar dasgau Celf, Daearyddiaeth a Chymraeg dan ofal athrawon y pynciau hynny.

Fel sail i'r gweithgareddau byddwn yn cerdded ar hyd llwybr lôn las o Ben Llyn at Gastell Dolbadarn yn Llanberis yn ystod y bore ar ddydd Mawrth, Ebrill 9fed gyda 7S a 7E ac ar fore dydd Iau gyda 7O a 7N. Bydd y disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol ar yr ymwelid ond gofynnwn i chi sicrhau bod ganddynt **esgidiau addas** ar y diwrnod a **chôt law** rhag ofn i'r tywydd fod yn anffafriol. Dylent ddod **a'u bag a'u câs pensiliau** gyda nhw yn cynnwys **beiro a phensil** i'r ysgol hefyd yn ogystal â **bwyd a diod** ar gyfer amser cinio.

Gobeithio bydd eich plentyn yn mwynhau'r cyfle hwn i weithio ar dasgau fydd yn datblygu eu sgiliau fel dysgwyr.

Yn gywir,

Gwenno Bebb.

Gwenno Bebb
Pennaeth Cynorthwyol